**Hysbysiad Preifatrwydd – Diogelu data, canllaw i fyfyrwyr (2023)**

**Cyflwyniad**

**Llywodraeth Cymru**

Rydych ar fin cofrestru ar gyfer rhaglen ddysgu sydd naill ai wedi'i ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (LlC) neu'n rhannol drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE) (trwy Lywodraeth Cymru).

Mae'ch cyfranogiad i'r rhaglen hon yn ddibynnol ar y data personol yr ydych yn ei ddarparu. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am reoli'r data personol y mae'n ei dderbyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hwn i gyflawni ei dasg gyhoeddus o weinyddu a monitro ei gyllid. Bydd gwybodaeth arall yn cael ei gadw gan y Coleg er mwyn gweinyddu'r rhaglen.

Os yw'ch rhaglen yn cael ariannu gan CGE, bydd y Coleg yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol megis pasbort, slip talu diweddar neu dystysgrif gymhwyster. Bydd copi o'r dystiolaeth yma yn cael ei gadw gan y Coleg at ddibenion archwilio CGE a bydd sampl yn cael ei ddanfon at Lywodraeth Cymru.

Am restr lawn o ddata personol a data categori arbenig a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, cliciwch yma am hysbysiad preifatrwydd https://www.llyw.cymru/cofnod-dysgu-gydol-oes-cymru-hysbysiad-preifatrwydd

Prosesir **Coleg Gŵyr Abertawe** data ar ran Llywodraeth Cymru. Cesglir a phrosesir gwybodaeth ywchanegol gan y coleg yn ogystal, gweler manylion isod.

Rydym o'r farn bod prosesi eich data personol at y dibenion a nodir isod yn angenrheidiol ar gyfer y tasgau rydym yn eu cyflawni er budd y cyhoedd, ac fel rhan o'n dyletswyddau statudol e.e. rhedeg coleg a darparu addysg i ddysgwyr.

**Sut bydd eich data yn cael ei ddefnyddio gan y Coleg**

Mae eich darparwr, Coleg Gŵyr Abertawe yn prosesi data ar ran Llywodraeth Cymru (LlC) ac yn casglu data ychwanegol, sydd yn ein galluogi i

- gefnogi'r gwaith o'ch dysgu, addysgu a'ch asesi;
- darparu mynediad i systemau'r Coleg;
- monitro ac adrodd ar eich cynnydd;
- bodloni gofynion iechyd a diogelwch a chyfle cyfartal;
- darparu gofal bugeiliol priodol, gan sicrhau ein bod cyflawni ein dyletswydd o ofalu am bob un o'n dysgwyr;
- gwybod am ddatganiadau meddygol a thystiolaeth ategol ofynnol, er mwyn darparu cymorth priodol.

**Pa ddata personol y mae'r Coleg yn ei gasglu yn ychwanegol i'r hyn sy'n cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru?**

Mae'r data personol a gasglwn yn cynnwys;

- Cyfenw blaenorol
- Enw presenol
- Rhif ffôn symudol
- Cyfeiriad Ebost
- Manylion cyswllt mewn argyfwng
- Gwlad breswyl barhaol
- Dyddiad mynediad i'r DU
- Gwybodaeth am statws preswylio
- Cymwysterau blaenorol
- P'un ai bod Saesneg yn ail iaith i chi neu beidio
- P'un ai eich bod chi wedi cael trefniadau arbennig mewn arholiadau yn y gorffennol

- Tystiolaeth feddygol sy’n ymwneud â threfniadau arbennig y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt, er mwyn gwneud newidiadau i’ch addysg a’ch arholiadau wrth i chi astudio gyda ni.
- P’un a oes gennych fynediad at ddyfais gartref ar gyfer dysgu ar-lein
- Gwybodaeth o’ch ysgol flaenorol a Dinas a Sir Abertawe (Amser Llawn)
- Gwybodaeth sy’n gysylltiedig â chais DBS (lle bo gofyn, oherwydd natur gwahanol y cyrsiau)
- Gwybodaeth am bresenoldeb
- Yr holl waith a gyflwynir, gan gynnwys marciau a graddau a rhoddir i chi

Gyda’ch caniatâd chi, byddwn yn gofyn am y data canlynol, gan gynnwys data categori arbennig mewn rhai achosion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â’r gwaith o fonitro cydraddoldeb. Cewch dynnu eich caniatâd yn ôl i brosesi’r data hwn ar unrhyw adeg.

- Crefydd neu Gredoau
- Statws Priodasol
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Ethnigrwydd
- Anableddau

Byddwn yn gofyn cwestiynau am eich Iaith Gyntaf er mwyn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg ac er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch ein darpariaeth Gymraeg. Cewch dynnu eich caniatâd yn ôl i brosesi’r data hwn ar unrhyw adeg.

**Gyda phwy y mae’r Coleg yn rhannu eich data?**

Bydd y Coleg yn rhannu rhywfaint o’ch data gyda’r sefydliadau canlynol:

- Llywodraeth Cymru (fel y disgrifir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn)
- Gwasanaeth Cofnodion Dysgwyr (ar gyfer dyraniad rhif unigryw’r dysgwr)
- WEST (pecyn sgrinio addysgol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru)
- Cyrff Dyfarnu
- Gyrfaoedd Lleol Cymru
- Adran Addysg Dinas a Sir Abertawe
- Colegau Cymru - ‘Upshot’
- Partneriaeth dan gontract ar gyfer darparu pecynnau croesawu amser llawn
- Bydd rheolwyr a phrosesyddion data yn cael eu hychwanegu o dro i dro

Dim ond at ddibenion penodol a ganiateir gan y gyfraith y bydd eich data’n cael ei ddefnyddio neu ei drosglwyddo. Mae’n ofynnol i ni ddanfon rhywfaint o’r data a gedwir amdanoch at Lywodraeth Cymru (LlC). Gweler hysbysiad preifatrwydd LlC isod.

**Pa mor hir fydd y Coleg yn cadw eich data?**

Bydd y Coleg yn cadw eich data yn unol â gofynion LlC. Manylir isod ar y data a gasglwn ar gyfer ein dibenion ein hunain

| Math o gofnod | Cyfnod Cadw | Pwrpas |
|---|---|---|
| Data / Cofnodion myfyrwyr nad oes eu hangen ar LlC, gan gynnwys cyflawniadau academaidd ac ymddygiad | O leiaf 6 mlynedd o’r dyddiad y mae’r myfyriwr yn gadael y Coleg | Cyfnod cyfyngu ar gyfer esgeulustod |
| | O leiaf 10 mlynedd ar gyfer cyfeiriadau personol ac academaidd | Galluogi’r Coleg i ddarparu cyfeiriadau am gyfnod rhesymol o amser |
| | Mae posibilrwydd bydd rhai data yn cael ei gadw am byth | Er gall cyfeiriadau personol ac academaidd fynd yn ‘hen’, bydd angen cadw data megis trawsgrifiadau o farciau myfyrwyr drwy yrfa’r myfyrwyr yn y dyfodol. |

**Trefniadau Diogelwch**

Bydd eich data (ar ffurf electroneg ac ar bapur) yn cael ei storio yn unol â'n polisi mewn ffeiliau a ddiogelir gan gyfrinair, cypyrddau neu ystafelloedd cloedig. Dim ond ar sail "rhaid gwybod" y gall y staff weld eich data yn unol â'u dyletswyddau yn y Coleg ac mae gan bob un ohonynt hyfforddiant mewn GDPR y unol â'u dyletswddau.

**Eich hawliau a'ch dewisiadau**

O dan reoliad GDPR, mae gennych yr hawl i:

- gael gafael ar ddata personol y mae'r Coleg yn cadw amdanoch
- gofyn i'r Coleg gywiro gwallau yn y data
- gwrthwynebu i brosesu data sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi (mewn rhai amgylchiadau)
- cyfyngu ar brosesu data (mewn rhai amgylchiadau)
- gofyn i'r Coleg ddileu eich data (mewn rhai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Eich cyfrifoldebau: rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y data yr ydym yn ei gadw yn gywir. Rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch data e.e. cyfeiriad, rhif ffôn a.y.b. Mae ffurflenni ar gael ar-lein neu gellir cael gafael ar gopi yn un o'r derbynfeydd.

**Cysylltu:**

Mae Polisi Diogelu Data'r Coleg ar gael i'w ddarllen ar wefan y Coleg.

Os hoffech wybod rhagor am GDPR neu os ydych yn dymuno cael mynediad i'ch data personol a gedwir gan y Coleg, cysylltwch â:

Swyddog Diogelu Data: DPO@gowercollegeswansea.ac.uk

**Cwynion**

Os hoffech gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Llywodraeth Cymru**

**Hysbysiad Preifatrwydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru: Rhan Un (Fersiwn Fer) V7.0**

Mae'n ofynnol bod pob dysgwr sydd eisoes yn dysgu yn gweld Hysbysiad Preifatrwydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, a'i fod yn cael ei ddangos yn ystod y broses ymrestru.

**Cyflwyniad**

Mae'r rhaglen ddysgu yr ydych ar fin ymrestru ar ei gyfer yn cael ei hariannu naill ai'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (LlC) neu'n rhannol drwy weithrediadau a gymeradwyir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) (drwy Lywodraeth Cymru).

Er mwyn cymryd rhan yn y rhaglen hon, bydd yn rhaid i chi ddarparu data personol. Rydym yn dibynnu ar erthygl 6(1)(e) o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data fel sail gyfreithiol i brosesu eich data personol. Mae hyn yn caniatáu i ni fodloni ein dyletswyddau cyfreithiol a gweinyddu a monitro'r cyllid a ddarperir gennym. Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth categori arbennig, fel ethnigrwydd, bydd yn cael ei phrosesu am resymau diddordeb cyhoeddus sylweddol (o dan Erthygl 9(2)(g) a dibenion ystadegol (o dan Erthygl 9(2)(j).

Llywodraeth Cymru fydd yn rheoli unrhyw ddata personol a ddarperir gennych fel rhan o'ch cais am gyllid.

Os caiff eich rhaglen ei hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, bydd eich darparwr dysgu yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol megis pasbort, slip cyflog diweddar neu dystysgrif cymhwyster. Cedwir copi o'r dystiolaeth hon gan eich darparwr dysgu at ddibenion archwilio gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, a bydd sampl o dystiolaeth dysgwyr ar draws darparwyr yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru.

**At ba ddiben y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth?**

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich data at ddibenion ariannu, cynllunio a datblygu polisi yn ogystal â monitro deilliannau dysgwyr (megis ennill cymwysterau, cynnydd dysgwyr a chyrchfannau).

Yn ychwanegol, bydd eich data yn cael eu defnyddio mewn ystadegau ac ymchwil swyddogol, gan gynnwys sut y mae iechyd ac amgylchiadau unigol yn cael effaith ar ddeilliannau addysgol dysgwyr yng Nghymru. Mae ein hadroddiadau ystadegau swyddogol yn rhoi darlun cyffredinol o ddysgwyr yng Nghymru, beth y maent yn eu hastudio, eu canlyniadau a'u cyrchfannau ar ôl iddynt adael. Er enghraifft, maent yn cynnwys, gwybodaeth am batrymau o ran rhyw ac oedran dysgwyr a'r cymwysterau, pynciau a'r lefelau y maent yn eu hastudio. Ni ellir adnabod dysgwyr unigol o'r cyhoeddiadau hyn.

Fel rhan o ffrwd cyflogaeth newydd Twf Swyddi Cymru Plws (TSC+), defnyddir data i bennu taliadau cymhorthdal cyfradd cyflog Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod cyflogaeth, er mwyn sicrhau bod y cyflog cywir yn cael ei dalu i'r cyfranogwr. Bydd data cyflogwyr hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi, monitro a phennu cyrchfan y cyfranogwyr hynny drwy gyflogaeth.

Bydd sefydliadau ymchwil hefyd yn defnyddio data dysgwyr ôl-16 er mwyn gwerthuso rhaglenni a pholisïau addysg yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith gwerthuso, efallai y byddant yn cynnal arolygon dysgwyr dewisol, a fydd yn asesu effaith rhaglen ar y dysgwr unigol yn ogystal â chyfrannu at ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol; er enghraifft, sefydlu faint o dâl y mae prentisiaid yn ei gael, sydd yn ei dro yn cyfrannu at ddatblygu polisi ar isafswm cyflog cenedlaethol.

Er mwyn i Lywodraeth Cymru asesu'r effaith y mae eu rhaglenni yn ei chael ar grwpiau o ddysgwyr penodol, byddwn yn cysylltu'ch data gyda chofnodion addysgol eraill a gedwir gennym, megis y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru a’r Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch. Rydym yn defnyddio hyn i'n helpu i ddeall cynnydd a deilliannau dysgwyr yng Nghymru, er mwyn llywio ein hymchwil, mesurau perfformiad a chyhoeddiadau ystadegol. Efallai y byddwn yn rhannu hyn hefyd gydag ymchwilwyr a chyda'n partneriaid, gan gynnwys Estyn a Cymwysterau Cymru, er mwyn eu cynorthwyo i gynnal eu dadansoddiad nhw o'r data i lunio arolygiadau ac adolygiadau. Ni ellir adnabod dysgwyr unigol o'r data hyn yr ydym yn eu rhannu â'n partneriaid.

Am restr fanylach o sut y mae eich data yn cael eu defnyddio, cyfeiriwch at y Rhan dau/Fersiwn Lawn o'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

Adolygwyd Mawrth 2023

**Pwy y mae Llywodraeth Cymru yn rhannu eich data â nhw a pham?**

Ewch i weld y Rhan Dau/Fersiwn Lawn o'r hysbysiad preifatrwydd am esboniad llawn o bwy rydym yn rhannu eich data â nhw a pham.

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data gallwch:

- weld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch chi
- ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gywiro unrhyw wallau yn y data hynny
- gwrthwynebu unrhyw achos o brosesu'r data, am resymau'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi (mewn rhai amgylchiadau)
- cyfyngu ar waith prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- gofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan rai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

**Am ba mor hir y bydd Llywodraeth Cymru'n cadw eich data?**

<table>
<tr><th>Y math o ddata</th><th>Cyfnod cadw data</th><th>Defnyddio'r data</th></tr>
<tr><td>Addysg Bellach a Dysgu Oedolion</td><td>Bydd eich data'n cael eu dileu ar ôl 10 mlynedd</td><td rowspan="2">Mae'n galluogi Llywodraeth Cymru i ddadansoddi data dysgwyr a chreu adroddiadau dros gyfnod o amser. Bydd yr adroddiadau hynny yn cael eu defnyddio i helpu i lywio penderfyniadau ynghylch polisïau neu ragweld cyllid yn y dyfodol. Os caiff y dysgu ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, cedwir data fel bod modd eu gwirio a'u harchwilio. Yr Undeb Ewropeaidd sy'n penderfynu ar y cyfnodau amser ar gyfer cadw data.</td></tr>
<tr><td>Rhaglen Comisiynu Prentisiaethau</td><td>Bydd eich data'n cael eu dileu 10 mlynedd ar ôl diwedd cyfnod y contract</td></tr>
<tr><td>Twf Swyddi Cymru Plws (TSC+)</td><td>Bydd eich data'n cael eu dileu ar ôl 10 mlynedd</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">Cedwir eich data am gyfnod hirach at ddibenion ystadegol a dibenion ymchwil.</td></tr>
</table>

**Manylion cyswllt**

I wybod mwy am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bostiwch**:** Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Adolygwyd Mawrth 2023

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF
029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y Deyrnas Unedig)
Gwefan: **https://ico.org.uk**

**Hysbysu ynghylch newidiadau**

Diweddarwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ddiwethaf ar Mawrth 2023 ac rydym yn ei adolygu'n gyson i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn gywir. Byddwn wastad yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i'r defnydd a wnawn o'ch data drwy'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn a'ch darparwr. Bydd pob achos o brosesu data gan Lywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol ym maes diogelu data**.**

Os hoffech beidio â chyflwyno eich data categori arbennig ar unrhyw adeg, dylech gysylltu â'ch darparwr dysgu a fydd yn diweddaru'ch cofnod.

**Hysbysiad preifatrwydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru Rhan Dau (Fersiwn Lawn)**

Mae'n ofynnol bod pob dysgwr sydd eisoes yn dysgu yn gweld Hysbysiad Preifatrwydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, a'i fod yn cael ei ddangos yn ystod y broses ymrestru.

**Pa wybodaeth bersonol amdanoch fydd yn cael ei chasglu a'i defnyddio gan Lywodraeth Cymru?**

Cesglir data personol amdanoch gan y darparwyr ac fe'u hanfonir at Lywodraeth Cymru ar gyfer Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, y system gasglu data ar gyfer Addysg Bellach, Rhaglen Comisiynu Prentisiaethau a Dysgu Oedolion. Yn ôl diffiniad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, eich data personol yw:

- Dynodydd unigryw'r dysgwr (sy'n cael ei greu gan Lywodraeth Cymru)
- Rhif adnabod y dysgwr (a grëwyd gan eich darparwr dysgu)
- Cyfenw
- Enw(au) cyntaf
- Cyfeirio
- Cod Post
- Rhif ffôn
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Cenedl
- Eich cyfenw yn 16 oed
- Dyddiad geni
- Hunaniaeth genedlaethol
- Yr ysgol ddiwethaf yr aethoch iddi
- Y flwyddyn y gadawsoch yr ysgol
- Rhif dysgwr unigryw (a grëwyd gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu)
- P'un a ydych yn weithiwr mudol
- Dangosydd anhawster neu anabledd dysgu
- Cod post (ar ddechrau'r rhaglen ddysgu)

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn prosesu'r data categori arbennig hyn am ddysgwyr:

Ethnigrwydd
Math o anabledd
Cyflwr iechyd

Nid oes yn rhaid i chi ddarparu'r data hwn.

Gweler Atodiad A am restr o feysydd data amhersonol y mae Llywodraeth Cymru yn eu casglu.

**Sut y bydd eich data'n cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru yn fewnol?**

- Mewn gwaith gwerthuso rhaglenni a phrosiectau, er mwyn llunio polisïau ar gyfer dysgu ôl-16 yn y dyfodol.
- Er mwyn mesur y deilliannau ar gyfer dysgu ôl-16, gan gynnwys cyflawniadau dysgwyr o ran cymwysterau, cynnydd a chyrchfannau.
- Er mwyn helpu i ddyrannu a monitro cyllid ar gyfer dysgu ôl-16, gan gynnwys dysgu a ariennir ar y cyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Gan archwilwyr Llywodraeth Cymru, sy'n gwirio'r data yn fisol er mwyn sicrhau bod darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn cyflawni'r hyn a amlinellir yn eu contract neu'u cytundeb ariannu gyda Llywodraeth Cymru.
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth o ran dysgu ôl-16 drwy Gymru, er mwyn sicrhau cydymffurfedd â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Er mwyn creu ystadegau swyddogol dienw ynghylch dysgu ôl-16 yng Nghymru.

**Sut y bydd eich data'n cael eu defnyddio gan drydydd partïon?**

- Mae Llywodraeth Cymru yn cysylltu'ch data yn fewnol a chyda chyrff allanol y llywodraeth megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, er mwyn asesu effaith rhaglenni dysgu fel prentisiaethau.
-
- Gan gwmnïau ymchwil sy'n cael eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith gwerthuso ar raglenni fel Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau. Efallai y bydd hyn yn cynnwys cysylltu â dysgwyr o'r gorffennol a rhai cyfredol i gymryd rhan mewn arolygiadau, er y bydd gennych wastad yr opsiwn i wrthod cymryd rhan os cysylltir â chi.
-
- Gan y Swyddfa ystadegau Gwladol, er mwyn cyhoeddi ystadegau crynswth mewn perthynas â'r economi, y boblogaeth a chymdeithas ar lefel y Deyrnas Unedig, Cymru a lefel leol. Cyhoeddir yr ystadegau hyn mewn modd sy'n sicrhau nad yw'n bosibl adnabod unigolion. Un o brif gynhyrchion ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw Cyfrifiad 2021. Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn defnyddio'r data i wella cywirdeb Cyfrifiad 2021. Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn defnyddio'r data i gynnal ymchwil, neu er mwyn rhoi data dienw i ymchwilwyr sydd wedi'u cymeradwyo (fel y'u diffinnir yn Neddf yr Economi Ddigidol), drwy ei hamgylchedd digidol diogel. Efallai y bydd prosiectau ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r prosiectau ymchwil yn ymwneud â chysylltu data â ffynonellau data eraill er mwyn helpu i ddeall y cyswllt rhwng y system addysg a materion eraill, megis iechyd, lles neu'r economi. Cynhelir yr holl waith ystadegol ac ymchwil mewn ffordd sy'n cynnwys cynnal gwiriadau i sicrhau nad oes modd adnabod unigolion o ganlyniadau unrhyw ddadansoddiad.
-
- Gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a fydd yn gweithio ag Amgylchedd Ymchwil Ddiogel i gysylltu'ch data gyda gwybodaeth ddienw amdanoch sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, y GIG a sefydliadau cyhoeddus eraill, gan sicrhau nad oes modd adnabod unigolion o ganlyniadau unrhyw ddadansoddiad.
-
- Gan Brifysgol Abertawe, mewn Amgylchedd Ymchwil Ddiogel, lle mae modd gwneud ymchwil gan ddefnyddio gwybodaeth ddienw a chynnal gwiriadau i sicrhau nad oes modd adnabod unigolion o ganlyniadau unrhyw ddadansoddiad. Bydd eich enw, eich cyfeiriad a'ch cod post wastad yn aros ar wahân i'ch data, ac ni fyddant ar gael yn yr Amgylchedd Ymchwil Ddiogel. Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unig. Un enghraifft o gwestiynau ymchwil allweddol a fydd yn cael eu hateb gan waith fel hyn yw sut y mae iechyd ac amgylchiadau unigol yn effeithio ar gyrhaeddiad dysgwyr yng Nghymru.

- 
- Gan Cymwysterau Cymru i gynnal dadansoddiad o nifer y dysgwyr ar lefel cymhwyster neu lefel sector, i helpu i lywio adolygiadau sector o gymwysterau.
- 
- Gan Estyn. Mae data ynghylch nifer y dysgwyr yn cael eu dadansoddi a'u defnyddio gan arolygwyr Estyn fel rhan o'u harolygiadau o'r dysgu a geir mewn sefydliadau addysg bellach, a gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith a darparwyr dysgu i oedolion.
- 
- Gan Adran Addysg Llywodraeth y DU, er mwyn cysylltu cofnodion dysgwyr â chofnodion cyflogaeth, enillion a budd-daliadau a gedwir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a hynny at ddiben nodi a dadansoddi i ba gyfeiriad y mae dysgwyr yn mynd o ran dysgu pellach a/neu gyflogaeth.
- 
- Bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r data cysylltiedig hyn yn fewnol, a bydd hefyd yn eu rhannu â chyrff cyhoeddus megis Estyn, Cymwysterau Cymru a CCAUC, neu gyrff ymchwil trydydd parti megis prifysgolion neu gwmnïau ymchwil cymdeithasol ac economaidd annibynnol. Pan rennir data cysylltiedig, cânt eu defnyddio i asesu effeithiolrwydd polisi ym maes addysg a hyfforddiant – er enghraifft, faint o bobl sydd â chymwysterau penodol sy'n mynd ymlaen i gael swyddi penodol, cymharu deilliannau pobl sy'n mynd at wahanol ddarparwyr addysg neu hyfforddiant, neu p'un a yw cynlluniau penodol wedi cyflawni'r hyn yr oeddent i fod i'w gyflawni.
- 
- Gan IFF Research sy'n cynnal arolygon ymchwil er mwyn rhoi darlun cyfredol o gyflogau prentisiaid yng Nghymru na thrwy Brydain Fawr ac i helpu o ran datblygu a monitro polisïau sy'n ymwneud â phrentisiaethau a'r isafswm cyflog cenedlaethol.
- 
- Gan KPMG, PwC, BTP Associates Ltd, Mazars ac RSM UK, archwilwyr cyllid addysg bellach, sy'n sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu asesu a yw data sy'n cael eu dychwelyd gan sefydliadau yn sail resymol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cyllid.
- 
- Gan Gyrfa Cymru, er mwyn cyflawni ei amcan o ddarparu cymorth i grwpiau penodol o unigolion sy'n wynebu risg uchel o ymddieithrio o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.
  Defnyddir data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru er mwyn eu paru â chofnodion cleientiaid sydd gan Gyrfa Cymru eisoes.
- 
- Bydd rhywfaint o'r wybodaeth amhersonol a ddarperir i Gyrfa Cymru ar gael i Gyrfa Cymru o ddydd i ddydd felly. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am gyrsiau, dyddiad cychwyn ac ati. Mae manylion ynghylch sut y bydd Gyrfa Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth i'w gweld yn ei hysbysiad preifatrwydd.

Mae'r contractwyr trydydd parti canlynol yn gwneud gwaith paru data a dadansoddi ar ran Llywodraeth Cymru:

- London Economics Ltd - paru'r un dysgwyr sy'n ymddangos mewn setiau data addysgol ar wahân (data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Casgliad Ôl-16 a'r Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch), sydd yn ei dro, yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i ddeall taith y dysgwyr drwy'r system addysg, a'u cyrchfannau ar ôl iddynt adael.

Mae'r broses o rannu data dysgwyr gyda chontractwyr trydydd parti o hyd yn ddarostyngedig i ofynion llym o ran cyfrinachedd a diogelwch ac mae'n rhaid i gontractwyr sy'n cynnal ymchwil ar ein rhan gydymffurfio â Chod Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth.

**Cytundebau rhannu data**

Mae gan Lywodraeth Cymru gytundeb rhannu data ffurfiol yn ei le pan fyddwn yn rhannu eich data gyda thrydydd parti. Mae rhan o'r cytundeb yn golygu y bydd yn rhaid i drydydd parti lofnodi cytundeb cyfrinachedd ynghylch eich data er mwyn dangos ei fod yn gweithredu gweithdrefnau boddhaol ar gyfer diogelwch gwybodaeth, y byddant ond yn defnyddio eich gwybodaeth mewn ffyrdd a ragnodir, ac y byddant yn dinistrio ei gopïau o'ch data pan na fydd arnynt angen y data mwyach.

Adolygwyd Mawrth 2023

**Trefniadau diogelwch ar gyfer eich data a gedwir gan Lywodraeth Cymru**

Bydd y data y mae Llywodraeth Cymru yn ei gasglu amdanoch yn cael ei storio mewn cronfa ddata ddiogel y caiff mynediad iddi ei reoli ac y caiff profion eu cynnal yn rheolaidd arni er mwyn sicrhau ei diogelwch a'i hintegriti.

**Crynodeb o'r newidiadau i Hysbysiad Preifatrwydd CDGOC rhwng fersiwn 6.0 a 7.0**

Geiriad y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedu ei ddiweddaru.

CThEM wedi ei ychwanegu i'r hysbysiad preifatrwydd.

Sail gyfreithiol categori arbennig wedi newid.

**Atodiad A**

| **Data amhersonol** | **Nodiadau** |
|---|---|
| Gwir oriau anghydamserol | |
| Gwir oriau cydamserol | |
| Oriau cydamserol disgwyliedig | |
| Oriau anghydamserol disgwyliedig | |
| Dangosydd achredu dysgu drwy brofiad blaenorol | Cydnabod y sgiliau a'r wybodaeth y mae'r dysgwr eisoes wedi llwyddo i'w cael at ddiben cymhwyster |
| Oriau gwaith gwirioneddol neu mewn canolfan | Cofnod o faint o amser y mae dysgwr yn debygol o dreulio gyda chyflogwr neu mewn coleg neu ganolfan ddysgu arall |
| Oriau cyswllt diwygiedig dan arweiniad neu mewn canolfan | |
| Dysgu asesadwy | P'un a yw'r dysgu'n asesadwy, ac yn caniatáu nodi gweithgareddau dysgu a ddylai gael dyfarniadau cysylltiedig |

| **Data amhersonol** | **Nodiadau** |
|---|---|
| Dangosydd cyrhaeddiad | |
| Lefel credyd/gwerth dyfarniad | |
| Dynodydd cofrestriad am ddyfarniad | Dynodydd ar gyfer pob cofrestriadam ddyfarniad ar gyfer y rhaglen ddysgu hon |
| Cyfeirnod nod dysgu dyfarniad | Dynodydd ar gyfer gweithgaredd dysgu gan Gymwysterau Cymru  neu god cyffredinol a ddiffinnir gan Lywodraeth Cymru |
| Cyfrifoldeb gofalu | Cofnodi a oes gan ddysgwyr a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop gyfrifoldebau gofalu |
| Statws cwblhau | |
| Gwlad breswyl | |
| Lefel credyd/gwerth y gweithgaredd dysgu | |
| Dyddiad cychwyn a gorffen y gweithgaredd dysgu/rhaglen ddysgu | |
| Cyrchfan o fewn tri mis i adael | |
| Enw/cod post y cyflogwr | |
| Statws cyflogaeth ar ddechrau'r rhaglen ddysgu/cyn dysgu | |
| Amcan o oriau gwaith/mewn canolfan | Yn cofnodi faint o amser y mae dysgwr yn debygol o dreulio gyda chyflogwr neu mewn coleg neu ganolfan ddysgu arall |
| Dyddiad gorffen disgwyliedig y gweithgaredd dysgu | |
| Oriau sy’n cael eu gweithio bob wythnos | |

| Data amhersonol | Nodiadau |
|---|---|
| Statws yr aelwyd | Cofnodi a yw dysgwyr a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn dod o aelwydydd di-waith |
| Y gyrchfan uniongyrchol | Cyrchfan y dysgwr o fewn pedair wythnos i adael y rhaglen |
| Cyllid darpariaeth ddysgu | |
| Rhif nod dysgu | Nodi gweithgaredd dysgu gan Gymwysterau Cymru neu god cyffredinol a ddiffinnir gan Lywodraeth Cymru |
| Cod rhaglen ddysgu/cyfeirnod gweithgaredd a ddefnyddir gan y darparwr | |
| Dyddiad gorffen disgwyliedig y rhaglen ddysgu | |
| Dynodydd y rhaglen ddysgu | |
| Cyfeirnod a ddefnyddir gan y darparwr | |
| Hyd y gyflogaeth gyda'r un cyflogwr | |
| Lefel y cymhwyster uchaf a gyflawnwyd cyn y rhaglen ddysgu | |
| Dangosydd anhawster neu anabledd dysgu | |
| Prif ffynhonnell y ffioedd | |
| Dull cyflwyno | Cofnodi a yw'r dysgu yn cael ei gyflwyno mewn ystafelloedd dosbarth, yn y gweithle neu mewn ffyrdd eraill |
| Cod post (ar ddechrau'r rhaglen ddysgu) | |
| Dyddiad dechrau'r rhaglen | |
| Cyfran o'r gweithgaredd dysgu a ddarperir | |

| **Data amhersonol** | **Nodiadau** |
|---|---|
| drwy gyfrwng y Gymraeg | |
| Y darparwr dysgu | |
| Rheswm dros derfynu'r rhaglen ddysgu | |
| Canlyniad a dyddiad y canlyniad | |
| Codau fframwaith sector | |
| Maint y cyflogwr/cod busnes bach a chanolig (BBaCh) | |
| Is-gontractwr sy'n cyflwyno'r rhaglen | |
| Pwnc dysgu/enw'r dyfarniad/gweithgaredd dysgu | |
| Cyfanswm ffioedd a dalwyd am y rhaglen ddysgu | |
| Y cymhwyster iaith Gymraeg uchaf a gafwyd cyn y rhaglen ddysgu | |
| Math o raglen ddysgu/gweithgaredd dysgu/dyfarniad | |
| Math o ddysgu cyfrwng Cymraeg | |
| Cod awdurdod unedol | |
| Dangosydd siaradwr Cymraeg | |
| Oriau cyswllt dan arweiniad mewn gwaith neu ganolfan | Yn cofnodi faint o amser y mae dysgwr yn debygol o dreulio gyda chyflogwr neu mewn coleg neu ganolfan ddysgu arall |
| Cyfeirnod y cyflogwr | |

| **Data amhersonol** | **Nodiadau** |
| --- | --- |
| Dangosydd ffyrlo | |
| Dangosydd y cynllun datblygu unigol | |
| Disgrifyddion gweithgarwch TSC+ | |
| Cymorth gwladwriaethol | |